## Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

## Communities, Equality and Local Government Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

**Jane Hutt AC**
**Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth**

**5 Rhagfyr 2014**

**Annwyl Weinidog**

**Bu'r Pwyllgor yn trafod Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Rhif 3 i'r Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth ar 3 Rhagfyr 2014.**

**Cytunodd yr Aelodau y dylwn ysgrifennu atoch yn gofyn am eglurhad ynghylch eich dealltwriaeth o fwriadau polisi Llywodraeth y DU mewn perthynas â chymalau 149-151 (yn flaenorol, cymalau 146-148) o'r Bil. Yn benodol, hoffai Aelodau gael rhagor o wybodaeth am y canlynol:**

- **Mewn perthynas â'r pŵer i Drysorlys Ei Mawrhydi wneud rheoliadau sy'n mynnu ad-dalu rhywfaint neu'r cyfan o unrhyw daliad ymadael cymwys mewn amgylchiadau penodedig (yn unol â pharagraff 8a y cynnig cydsyniad deddfwriaethol), beth yw'r amgylchiadau penodedig hynny ym marn Llywodraeth Cymru?**

- **Mewn perthynas â thaliad ymadael cymwys, mae'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn datgan bod hyn yn golygu taliad o ddisgrifiad penodol a wneir i weithiwr neu ddeiliad swydd o awdurdod sector cyhoeddus rhagnodedig pan fyddant yn gadael eu swydd. Pa awdurdodau sector cyhoeddus a swyddi fydd wedi'u cynnwys yn y darpariaethau hyn? A fydd yn cynnwys, er enghraifft, swyddogion llywodraeth leol, cynghorwyr, staff gwasanaethau tân ac achub a'r heddlu?**


- **A fydd trothwy isaf o ran y taliadau ymadael sydd i'w had-dalu ac, os felly, beth fydd y trothwy hwnnw?**

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol / Communities, Equality and Local Government Committee
Gwasanaeth y Pwyllgorau / Committee Service
Ffôn / Tel : 0300 200 6338
E-bost / E-mail : pwyllgor.CCLLL@cynulliad.cymru

- **Mewn perthynas â'r pŵer i hepgor y gofyniad i ad-dalu, os caiff hwn ei roi i Weinidogion Cymru, o dan ba amgylchiadau byddai Llywodraeth Cymru yn rhagweld defnyddio'r pŵer hwnnw?**

**Y dyddiad cau i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol yw 8 Ionawr. Ar sail hynny, byddwn yn ddiolchgar i gael ateb gennych erbyn dydd Mercher 10 Rhagfyr er mwyn i'r Aelodau allu trafod eich ymateb ar 11 Rhagfyr, yn ein cyfarfod olaf o'r tymor.**

**Yn gywir**



**Christine Chapman AC**

**Cadeirydd**